The Electoral Commission

Amserlen ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU ym Mhrydain Fawr

Caiff dydd Sadwrn, dydd Sul, gwyliau banc ac unrhyw ddiwrnod a bennir ar gyfer diolchgarwch neu alar cyhoeddus eu diystyru wrth gyfrifo'r amserlen ar gyfer etholiad Senedd y DU.

Mae gŵyl banc 2 Rhagfyr (Dydd Sant Andreas) yn yr Alban yn gwneud cyfrifo dyddiadau yn wahanol o fewn amserlen yr etholiad; mewn rhai achosion mae'n cael ei ddiystyru o gyfrifiadau fel 'dies non' ac mewn eraill nid yw.

O ganlyniad i hyn, a diwygiad a wnaed i Fil Etholiad Cyffredinol Seneddol Cynnar 2019-20, mae'r dyddiadau cau ar gyfer rhai rhannau o'r amserlen a fyddai fel arfer yn disgyn ar wahanol ddyddiadau yr un fath (er enghraifft, dyddiad cau'r cais am bleidlais bost a dyddiad cau'r cais cofrestru).

Cofiwch y gall yr amserlen newid os caiff diwrnodau eu pennu'n ddiwrnodau diolchgarwch neu alar cyhoeddus.

Mae'r amserlen hon yn seiliedig ar y dybiaeth y caiff yr writ ei derbyn ar y diwrnod yn dilyn diddymu'r Senedd. Os caiff yr writ ei derbyn ar ddyddiad gwahanol mewn etholaeth benodol:

- Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad yn yr etholaeth benodol honno erbyn 4pm fan bellaf ar yr ail ddiwrnod yn dilyn derbyn yr writ.
- Bydd y cyfnod ar gyfer cyflwyno papurau enwebu yn dechrau ar y diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad. Bydd y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yn aros yr un fath (h.y. 4pm ar 19 diwrnod gwaith cyn yr etholiad).

Digwyddiad	**Dyddiad**
Diddymu'r Senedd	6 Tachwedd
Derbyn gwrit	7 Tachwedd
Cyhoeddi hysbysiad o etholiad	Dim hwyrach nag 11 Tachwedd (4pm)

Digwyddiad	Dyddiad
Cyflwyno papurau enwebu	Rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad hyd at 14 Tachwedd (4pm)
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu	14 Tachwedd (4pm)
Dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiad yn ôl	14 Tachwedd (4pm)
Gwneud gwrthwynebiadau i bapurau enwebu (heblaw am wrthwynebiadau ar sail y ffaith y gall ymgeisydd unigol gael ei anghymhwyso o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 – gweler canllawiau'r Comisiwn)	14 Tachwedd (10am – 5pm) Rhwng 10am a 12 canol dydd: gellir gwneud gwrthwynebiadau i bob enwebiad a gyflwynwyd Rhwng 12 canol dydd a 5pm: dim ond i enwebiadau a gyflwynwyd ar ôl 4pm ar 13 Tachwedd y gellir gwneud gwrthwynebiadau
Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu bod asiantiaid etholiad wedi'u penodi	14 Tachwedd (4pm)
Cyhoeddi datganiad am y sawl a enwebwyd, gan gynnwys hysbysiad pleidleisio a lleoliad gorsafoedd pleidleisio	14 Tachwedd (5pm) Os gwneir gwrthwynebiad/ gwrthwynebiadau: ddim cyn gwaredu gwrthwynebiad/ gwrthwynebiadau ond ddim hwyrach na 15 Tachwedd (4pm)
Cyhoeddi'r hysbysiad interim cyntaf o newid i etholiad	14 Tachwedd
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i gofrestru	26 Tachwedd

Digwyddiad	Dyddiad
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau newydd am bleidlais bost a phleidlais drwy ddirprwy, ac am newidiadau i bleidleisiau post neu bleidleisiau drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes	26 Tachwedd (5pm)
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy (nid pleidlais drwy ddirprwy drwy'r post na phleidlais argyfwng drwy ddirprwy)	4 Rhagfyr (5pm)
Cyhoeddi'r ail hysbysiad interim o newid i etholiad	15 Tachwedd – 4 Rhagfyr
Cyhoeddi'r hysbysiad olaf o newid i etholiad	5 Rhagfyr
Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu bod asiantau pleidleisio a chyfrif wedi'u penodi	5 Rhagfyr
Y dyddiad cyntaf y gall etholwyr wneud cais am bleidlais bost newydd yn lle pleidlais bost a gollwyd	6 Rhagfyr
Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu bod is-asiantiaid wedi'u penodi	10 Rhagfyr
Diwrnod pleidleisio	**12 Rhagfyr**
Y tro olaf y gall etholwyr wneud cais am bleidlais bost newydd yn lle pleidlais bost a ddifethwyd neu a gollwyd	12 Rhagfyr (5pm)
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy	12 Rhagfyr (5pm)
Y tro olaf y gellir newid y gofrestr o ganlyniad i wall clercaidd neu apêl gan y llys	12 Rhagfyr (9pm)
Ar ôl datgan y canlyniad	

Digwyddiad	Dyddiad
Cyflwyno ffurflen ynghylch treuliau etholiad	17 Ionawr 2020 (gan dybio y caiff y canlyniad ei ddatgan ar 13 Rhagfyr)
Y dyddiad cau ar gyfer anfon hysbysiadau gwrthod manylion adnabod ar gyfer pleidleisiau post	11 Mawrth 2020